Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cydrannu – Blwyddyn 6

## 2017/18

Gorffennaf 2017

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cydrannu – Blwyddyn 6

## Menter Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru i hybu Datblygu Cyfleoedd Rhwydweithio

## Cyflwyniad

Am y chweched flwyddyn, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi clustnodi arian ar gyfer menter strategol i hybu creu cyfleoedd newydd i rwydweithiau a chryfhau'r rhai sy'n bodoli.

Targeda'r arian hwn fentrau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo Cyfartaledd ac Amrywiaeth gan gynnwys (ond heb eithrio):

- Mynd i'r afael â chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd
- Datblygu cynulleidfaoedd amrywiol ar gyfer y Celfyddydau
- Cynyddu ymgyfranogi yn y Celfyddydau ymhlith cymunedau sydd heb gymryd rhan.

Mae pob math o rwydweithiau. Mae rhai'n fwy ffurfiol nag eraill; rhai'n fawr, eraill yn fach iawn. Gallent gyfarfod yn rheolaidd neu'n ôl yr angen. Nid oes raid i rwydweithiau'r dyddiau hyn fod yn wyneb yn wyneb - gallant fod ar-lein.

Credwn fod rhwydweithiau'n bwysig i hwyluso'r canlynol:

– rhannu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd

– ffynhonnell o gefnogaeth

– hybu cydweithio

– rhannu adnoddau

– trafod materion a syniadau

## Cefnogi rhwydweithiau newydd a rhai sy'n bod

Rydym yn awyddus i annog creu rhwydweithiau newydd sy'n dod â phobl a sefydliadau sy'n rhannu anghenion a diddordebau at ei gilydd. Teimlwn eu bod yn debycach o ddatblygu a ffynnu os dônt yn naturiol o'r sector yn hytrach na chael eu creu gennym ni sy'n drydydd parti megis Cyngor Celfyddydau Cymru.

Felly gallwn roi symiau bychain o arian ar sail untro tuag at y canlynol:

- costau cyfarfodydd untro i ddod ag unigolion neu sefydliadau at ei gilydd â phwrpas cyffredin i greu rhwydwaith
- costau sefydlu tuag at greu fforymau/cymunedau ar-lein

Nid ydym am gau allan rhwydweithiau cyfredol o'r fenter ac rydym yn awyddus i archwilio gyda hwy ffyrdd o ddatblygu'r gefnogaeth a gynigiant i'w haelodau. Er enghraifft, gallai hyn esgor ar ariannu un digwyddiad i gynyddu galluogrwydd y grŵp neu gynnig cyfle i gynyddu nifer yr aelodau.

Rydym yn fodlon cefnogi gwahanol fathau o rwydweithiau: grwpiau lleol/rhanbarthol; grwpiau dan arweiniad artistiaid sy'n benodol i gelfyddyd neu weithgarwch. Wrth gefnogi datblygiad rhwydweithiau newydd rydym yn awyddus iawn i weld tystiolaeth o **bwrpas cyffredin** neu **angen wedi'i rannu** ymhlith aelodau posibl ac o allu'r gweithgarwch i fod yn hunangynhaliol.

## Derbyn cefnogaeth

Mae gennym arian sydd ar gael am brosiectau bychain untro yn 2017-18 a gallwn roi hyd at £2,500 y prosiect. **Noder: disgwyliwn i'ch prosiect ddigwydd yn y flwyddyn ariannol bresennol (cyn diwedd Mawrth 2018).**

I ymgeisio rhaid ichi lenwi ffurflen gais. **Nid yw ar gyfer arian y Loteri'n gyffredinol felly bydd yn <u>rhaid ichi gysylltu â ni</u> am ddolen i'r ffurflen briodol neu ni allwn brosesu eich cais (gweler ein manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr hwn).**

Rhaid ichi hefyd uwchlwytho gwybodaeth ategol gan gynnwys cyllideb y prosiect a chynnig byr (hyd at ddwy ochr o A4) sy'n nodi'n glir buddion eich prosiect. Yn eich cynnig hoffwn weld y canlynol:

- Manylion cyswllt yr unigolyn a'r sefydliad sy'n arwain y cynnig
- Disgrifiad o'r hyn a wnewch
- Y rhesymau pam rydych am ei wneud
- Tystiolaeth o'r angen am y prosiect
- Nifer y sefydliadau a'u mathau fydd yn cymryd rhanna'ch cynlluniau i atynnu aelodau

- Y buddion i'r rhai sy'n cymryd rhan
- Manylion o'r costau yr hoffech inni eu talu

Ariannwn 100% o gostau eich prosiect cyn belled nad ydynt yn uwch na £2,500. Dyma'r mathau o gostau y gallwn helpu gyda hwy:

– Llogi ystafell
– Arlwyo
– Ffioedd siaradwr/hwylusydd a chostau
– Ffioedd cyfieithu (os oes eu hangen)
– Costau hygyrchedd
– Llogi offer
– Prynu meddalwedd briodol neu hygyrchedd hyd at flwyddyn ar lwyfan ar-lein

## Gwybodaeth bellach

Gallwn ond dalu costau teithio a threuliau unigolion sydd â swyddogaeth ffurfiol yn y cyfarfod e.e. gŵr gwadd, hwylusydd ac ati.

Nid yw o bwys a gawsoch arian gennym yn y gorffennol. Cyn belled ag y gallwch arddangos yr angen ymhlith ymgyfranogwyr posibl, ystyriwn eich cynnig.

Ystyriwn gynigion gan sefydliadau o'r tu allan i Gymru sydd am greu rhwydwaith yng Nghymru. Ystyriwn hefyd gynigion am rwydweithiau sy'n cynnwys sefydliadau o'r tu allan i Gymru ymhlith eu haelodau.

## Yr hyn a ddisgwyliwn oddi wrthych

Gofynnwn i bawb sy'n cael ein harian lunio adroddiad byr ar y cyfarfod/gweithgarwch sy'n digwydd. Gall hyn gynnwys nifer y bobl a gymerodd ran, y math o sefydliadau yno, disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd ac amlinelliad o gynlluniau at y dyfodol a drafodwyd ar y diwrnod neu wedyn.

## A oes gennych ddiddordeb?

Cysylltwch â ni i gael dolen i'r ffurflen gais am arian strategol.

Amanda Loosemore
Rheolwr Portffolio, Ymgysylltu ac Ymgyfranogi

E-bost: amanda.loosemore@celf.cymru
Ffôn: 01267 230337

Lisa Williams,
Cydlynydd Tîm, Ymgysylltu ac Ymgyfranogi

E-bost: lisa.williams@celf.cymru
Ffôn: 029 2044 1349

### Dyddiad cau i gynigion:

Dydd Gwener 8 Medi 2017

Dydd Gwener 8 Rhagfyr 2017

Wrth gynllunio eich cais, gwnewch yn siŵr eich bod wedi gadael digon o amser i gwblhau eich prosiect cyn diwedd Mawrth 2018 gan na allwn ariannu unrhyw gais gyda dyddiad sy'n dod i ben wedi'r cyfnod hwn.